**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Dydd Mawrth 18 Chwefror 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Evan Wyn Robertson, Gareth Thomas a Dyfed Williams
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – clerc / SAC a Ken Taylor – Cynghorydd Sir. . .

**1. Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Gordon Owen, Sharon Parry, Einir Thomas a William Victor Owen.

**2. Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:
Cyng. Gwilym O. Jones yn eitem 4.2 Caergeiliog, Neuadd y Pentref.
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Cofnodion 21 Ionawr 2025 – Cwestiynodd Cyng. Celfyn Furlong ddedfryd olaf para 4.2 – parthed dymchwel yr hen floc toiled a geiriad para 8.4 - Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan. Cadarnhawyd safbwynt yr Ymddiriedolwyr a bod 4.2 yn gywir ac eglurwyd y pryderon a godwyd gan Gyngor Cymuned Llanfaelog (8.4). Derbyniwyd y cofnodion diwygiedig fel rhai cywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd y contractwr i fod i ddechrau paentio'r offer chwarae ddiwedd mis Mawrth gyda'r bwriad o orffen cyn y Pasg. Byddai torri glaswellt yn dechrau ddiwedd mis Mawrth.

4.2 Neuadd y Pentref: Adroddwyd:
1) Fod y goeden a oedd wedi disgyn ar eiddo Môn Caravans wedi cael ei symud. Anfonwyd yr amcan bris am gael gwared a'r goeden arall ac atgyweiriadau i'r ffin wedi cael eu hanfon i'r yswirwyr yn unol â'u cais.
2) Roedd Mộn Fire eisoes wedi ymweld â'r adeilad i asesu'r gwaith o osod larwm tân ond heb roi pris am wneud hynny ond er gwaethaf sawl cais nid oedd Snowdonia Fire Ltd wedi bod yno. Cynigiodd Cyng. Celfyn Furlong gysylltu â'r ddau.

Yn dilyn trafodaethau pellach, cytunwyd:
1) Peidio â chymryd archebion newydd nes bod system larwm newydd wedi'i gosod.
2) Y byddai'r clerc yn gofyn i R G Hire osod pibell ddŵr newydd o ymyl y porth i gefn y neuadd.
3) Gwneud cais am grant gan Gymdeithas Elusennol Ynys Môn ar gyfer system gwres canolog nwy newydd. Roedd dau amcan bris wrth law ac roedd y ddau gontractwr wedi cynghori y dylid rhoi'r boeler yn y sied o dan y gegin. Byddai angen cyflenwad trydan yno, roedd y clerc wedi gofyn am bris am hyn.
4) Aros am ganlyniad yr hawliad yswiriant cyn tynnu'r ail goeden sydd wedi syrthio neu wneud gwaith atgyweirio ar y terfyn..
5) I drefnu i'r llwyn sy'n tyfu yng nghefn y capel gael ei thynu.
6) Peidio â dilyn i fyny ar yr amcan brisiau a gafwyd ar gyfer y gwaith arall ar hyn o bryd

4.3 Deffibrilwr Caergeiliog – gwaith yn parhau.

4.4 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:

1) Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan - Cadarnhaodd Cyng. Celfyn Furlong ei fod wedi rhoi gwybod i Fwrdd am bryderon y Cyngor am ddiffyg tryloywder a'i fod wedi trefnu i gofnodion eu cyfarfodydd gael eu hanfon at y clerc. Dywedodd wrth yr Aelodau bod penderfyniad wedi ei wneud i hepgor rhai trafodaethau o'r munudau ac mai dim ond cynnwys y munudau hynny oedd am rannu. Cadarnhawyd nad oedd gan y Bwrdd yswiriant indemniad a fyddai'n amddiffyn y Cyngor Cymuned rhag camau cyfreithiol pe bai eu cynrychiolwyr yn gwneud penderfyniadau annoeth wrth wasanaethu ar y Bwrdd. Byddai unrhyw geisiadau am gostau cyfreithiol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i GSYM.

2) Nodwyd bod rhan o'r A5 dal heb linellau gwyn yng Nghaergeiliog – angen atgoffa CSYM.

## 5. Cynllunio

5.1 Penderfyniad LUE 2024/26 The Battery House, Hunters Rise, Caergeiliog
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol o garafán statig fel annedd, a'r defnydd o dir o'i amgylch fel cwrtil preswyl - Yn gyfreithlon.

## 6. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod rhwng 1.1.2025 a 31.1. 2025 ynghyd â chysoniad banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon. Cyfrif cyfredol £ 30694.48, Cyfrif Adneuo £ 4081.97.

6.1 Rhoddion - i'w drafod fis nesaf.

6.2 Lwfans Aelodau - Atgoffwyd Aelodau y byddai'n rhaid iddynt gadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn gweithio gartref ar ddyletswyddau swyddogol fel Cynghorydd ac nad ydynt eisoes yn hawlio lwfans treth ar gyfer costau gweithio gartref yn erbyn ffynhonnell incwm arall cyn derbyn taliad di-dreth. Dylai unrhyw un nad oedd am dderbyn y lwfans anfon cadarnhad ysgrifenedig ymlaen at y clerc.

6.3 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytuno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Ionawr) | £353.07 | Nwy Prydain | £110.92 |
| R G Hire | £1320 | T R Evans Hughes | £857 |
| HMRC | £282.20 | Lwfans Cynghorwyr | £208 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

## 7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

7.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru

7.2 Un Llais Cymru â Chymorth Cynllunio Cymru – Dydd Iau 27 Mawrth rhwng 10:00am a 1:30pm, o bell drwy Zoom

7.3 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru - Ar-lein ddydd Mawrth 11 Mawrth 2025 rhwng 4:00pm a 6:00pm

7.4 Ymgysylltu Ôl-16 – Cytunodd yr Aelodau mai'r hoff opsiwn oedd cael addysg i bobl ifanc 16 oed mewn lleoliad canolog ar Ynys Môn.
www.anglesey.gov.wales/ôl-16-education

7.5 Gorchymyn Traffig Arfaethedig - Cytunwyd bod y gorchymyn arfaethedig i symud y terfyn cyflymder o 20mya o'r tu hwnt i Fryn Ednyfed i nesáu at y pentref yn dderbyniol.

7.6 Rhaglen Adolygu Etholiadol 2025
https://www.dbcc.gov.wales/reviews/02-25/research-on-the-workload-of-county-councillors-in-wales

7.7 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cyflwyniadau.

**8 Adroddiadau Aelodau**

8.1 Gofynnodd Cyng. Wyn Robertson am y posibilrwydd o gael lloches bws ar Ffordd Cymyran gan fod y disgyblion oedd yn teithio i Ysgol Caergybi yn gwlychu yn ofnadwy yn y boreau. Nodwyd bod y hyn wedi ei drafod gyda'r Adran Briffyrdd yn y gorffennol, yn anffodus nid oedd digon o le i godi lloches yn y cyffiniau yna. Yr unig le oedd ar gael oedd ar yr A5 gyferbyn â'r Tollty, ond roedd ochr draw i'r briffordd ar gyfer y bws ysgol. Awgrymwyd mai opsiwn arall fyddai i ail-lwybro'r bws fel ei fod yn teithio i Lanfihangel yn Nhowyn trwy'r A5 a dychwelyd ar hyd Ffordd Cymyran cyn troi am Gaergybi. Byddai angen mwy o wybodaeth am union lwybr bws cyn symud ymlaen â hyn.

**9. Cyfarfod nesaf - 18 Mawrth 2025**

: